Prifysgol Cymru
Y Drindod Dewi Sant
University of Wales
Trinity Saint David

ATODIAD GA36a

MANYLEB ASESU LEFEL 4

Enw'r myfyriwr:		**Rhif Adnabod y myfyriwr:**	
Rhaglen:	**BA Addysg Gynradd gyda SAC**		
Modwl:	**Cylch 1 Astudiaethau Proffesiynol ac Addysgegol: Ymchwilio i'r Dysgu: beth, sut a pham ydw i'n addysgu?**		
Cod y modwl:	**ECAD4010C**	**Cyfraniad at Asesiad Cyffredinol y Modwl (%):**	**100%**
Darlithydd:	**Alison S Evans**	**Gwiriwr Mewnol:**	**Nanna Ryder**
Teitl yr Aseiniad:	**Dadansoddiad a gwerthusiad critigol o'r offeryn ymchwil 'Graddfa Leuven'.**	**Nifer o eiriau (neu'r cyfwerth):**	**2000 o eiriau.**
Dyddiad cyflwyno:	**15/05/20 (erbyn 23:59)**	**Dyddiad dychwelyd marciau dros dro ac adborth ysgrifenedig:**	**05/06/20**
Dull cyflwyno:	Lle bo'n ymarferol ac yn bosibl, rhaid cyflwyno pob asesiad ysgrifenedig drwy Turnitin, oni nodir yn wahanol gan y Darlithydd. (PEIDIWCH â rhoi'r fanyleb asesu hon i mewn i Turnitin neu bydd yn cyfateb i lawer o bethau tebyg yng nghyflwyniadau myfyrwyr eraill.) **Dull cyflwyno arall (os ydy'n berthnasol):** **Bydd cyflwyno'r asesiad yn hwyr yn arwain at ddyfarnu marc cosb.** Cosbau am gyflwyno'n hwyr: Hyd at wythnos yn hwyr, uchafswm marc o 40%. Dros wythnos yn hwyr, 0%. Y Panel Amgylchiadau Esgusodol yn unig all gymeradwyo newid dyddiadau cyflwyno.		
Gonestrwydd academaidd / cyfeirnodi:	Mae gonestrwydd academaidd yn ofynnol. Ym mhrif ran eich cyflwyniad rhaid i chi gydnabod awduron y mae'ch gwaith wedi'i seilio ar eu hymchwil a'u syniadau. Dylech atodi rhestr gyfeiriadau i'ch cyflwyniad sy'n nodi'r llyfrau, erthyglau ac ati rydych wedi'u defnyddio, wedi cyfeirio atynt neu wedi'u dyfynnu er mwyn cwblhau'r asesiad hwn.		

Deilliannau Dysgu'r Modwl (o faes llafur y modwl)
Ar ôl cwblhau'r modwl hwn yn llwyddiannus, dylai'r darpar myfyriwr allu dangos y gallu i: • ddeall lle ymchwil mewn arfer addysgol a'i effaith ar ddysgu ac addysgu; • dechrau dadansoddi, dehongli a gwerthuso gwybodaeth ymchwil a gwneud cysylltiadau â'i arfer ei hun; • dechrau datblygu arfer moesegol a deall perthynas hynny ag ymchwil trwy ddeall ystyriaethau moesegol yn yr ystafell ddosbarth; • deall bod safbwyntiau a phersbectifau gwahanol yn bod ym maes ymchwil addysg a dechrau datblygu barn bersonol yn seiliedig ar dystiolaeth; • deall, cymhwyso a gwerthuso arsylwi fel offeryn ymchwil gan gynnal arfer moesegol.

DISGRIFIAD O'R DASG

Teitl: Dadansoddiad a gwerthusiad critigol o'r offeryn ymchwil 'Graddfa Leuven'.

Cymharwch a chyferbynnwch ystod o lenyddiaeth (cyfnodolion, blogiau, adroddiadau'r llywodraeth, gwefannau, adroddiadau Estyn) sy'n ymwneud ag arsylwi'r amgylchedd dysgu o fewn dosbarth Cyfnod Sylfaen (CS). Gall yr amgylchedd dysgu gynnwys lleoedd ac adnoddau dan do neu awyr agored. Dylai arsylwi ganolbwyntio ar grŵp bach o ddysgwyr, gan ddefnyddio graddfa Leuven fel offeryn.

Mae angen i chi ymgysylltu'n feirniadol â'r llenyddiaeth wrth ddod i gasgliadau pendantynghylch creu amgylchedd dysgu effeithiol. Mae angen ystyried hefyd effaith bosibl defnyddio graddfa Leuven ar eich ymarfer eich hun fel ymchwilydd moesegol ac ar ddatblygiad dysgwyr. **2,000 o eiriau.**

Strwythur yr aseiniad:

Mae'r adran hon yn darparu strwythur a awgrymir ar gyfer eich aseiniad ond nodwch mai canllawiau yn unig ydyw; felly ni ddylech ganiatáu i'r arweiniad gyfyngu ar eich ysgrifennu. Trwy gydol yr aseiniad, ceisiwch osgoi gwneud hawliadau heb eu cefnogi gyda'ch darllen.

Cyflwyniad (tua 200 o eiriau):

Dylech ddangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r hyn rydych chi ar fin ei drafod. Amlinellwch yn fyr yr amgylchedd dysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen. Efallai y byddwch yn defnyddio eich gwybodaeth bresennol am ddosbarthiadau y gallech fod wedi gweithio gyda nhw, ond yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn dangos ymwybyddiaeth o'r mathau o brofiadau dysgu a fyddai'n addas ar gyfer lleoliad Cyfnod Sylfaen.

Adolygiad Llenyddiaeth (tua 500 o eiriau):

Cymharwch a chyferbynnwch ystod o lenyddiaeth (gweler y brîff aseiniad) ar y maes arsylwi o'ch dewis o fewn dosbarth Cyfnod Sylfaen. Mae angen i chi ddangos eich dealltwriaeth o syniadau allweddol mewn perthynas ag addysgeg Cyfnod Sylfaen, gan gyfeirio'n rheolaidd at lenyddiaeth. Cofiwch ddefnyddio iaith synhwyrol, a cheisiwch archwilio syniadau o wahanol ffynonellau yn hytrach nag adrodd arnynt yn unig.

Methodoleg (tua 300 o eiriau):

Gwerthuwch defnydd o'r Raddfa Leuven fel offeryn arsylwi. Cyfeiriwch at lenyddiaeth, ac amlinellwch eich cynllunio ar gyfer eich ymchwil.

Trafodaethau a chanlyniadau (tua 600 o eiriau):

Dylai'r drafodaeth ganolbwyntio ar ystyriaethau moesegol eich ymchwil, ac mae angen i chi ddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r rôl y mae moeseg yn ei chwarae mewn ymchwil. Cyflwynwch eich canfyddiadau o ran eich arsylwadau o grŵp bach o ddysgwyr mewn man awyr agored neu dan do a chysylltwch â llenyddiaeth briodol. Unwaith eto, bydd angen i chi ddefnyddio iaith synhwyrol yn eich trafodaethau.

Casgliadau ac argymhellion (tua 400 o eiriau):

Mae'r casgliad yn caniatáu ichi syntheseiddio'ch syniadau trwy gyfeirio'n fyr at y cyflwyniad, crynhoi'ch prif ganfyddiadau a chydnabod unrhyw gryfderau a chyfyngiadau eich ymchwil. Amlinellwch unrhyw argymhellion a allai fod gennych, gan gyfeirio at y llenyddiaeth. Mae angen i chi hefyd ystyried effaith yr ymchwil ar eich dysgu proffesiynol a sut y gallai hyn drawsnewid eich ymarfer proffesiynol yn y dyfodol.

CANLLAWIAU I FYFYRWYR WRTH GWBLHAU TASGAU

SYLWER: Mae'r canllawiau a nodir isod yn gysylltiedig â'r pum maen prawf asesu generig drosodd.

1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth

Mae'n rhaid i'ch gwaith gael ei lywio a'i gefnogi gan ddeunydd ysgolheigaidd sy'n *berthnasol* i'r dasg/tasgau a osodwyd ac sy'n *canolbwyntio* arni/arnynt. Dylech ddarparu tystiolaeth i ddangos eich bod wedi cael mynediad at *ystod* briodol o ffynonellau, a allai fod yn academaidd, yn llywodraethol a diwydiannol; gall y ffynonellau hyn gynnwys erthyglau cyfnodolion academaidd, gwerslyfrau, erthyglau newyddion cyfredol, dogfennau sefydliadol a gwefannau. Dylech ystyried *hygrededd* eich ffynonellau; fel arfer mae cyfnodolion academaidd yn ffynonellau credadwy iawn, ond mae'n rhaid ystyried/dethol gwefannau'n ofalus iawn a dylid eu defnyddio'n gynnil. Dylai unrhyw ffynhonnell a ddefnyddiwch fod yn gyfredol, a'r rhan fwyaf wedi'u cyhoeddi o fewn y pum mlynedd diwethaf, er y gall darnau arloesol/pwysig o waith yn y maes fod yn hŷn. Rhaid i chi ddarparu *tystiolaeth* o'ch ymchwil/gwaith darllen eich hun trwy gydol eich gwaith, gan ddefnyddio system gyfeirnodi addas, yn cynnwys cyfeiriadau yn y testun ym mhrif ran eich gwaith a rhestr gyfeiriadau ar ddiwedd eich gwaith.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Sicrhewch fod llenyddiaeth yn dod o ystod o ffynonellau - llyfrau, cyfnodolion, adroddiadau'r llywodraeth ac Estyn, gwefannau a blogiau addysgol - a'u bod yn ymwneud â'r amgylchedd mewn lleoliad Cyfnod Sylfaen. Mae llawlyfr y modiwl yn cynnwys rhestr ddarllen, ond gallwch hefyd ddod o hyd i'ch deunydd eich hun. Ceisiwch gynnwys amrywiaeth o ffynonellau, ac osgoi gorddibyniaeth ar un ffynhonnell benodol. Y peth allweddol yma yw cymharu a chyferbynnu'r ystod o ffynonellau rydych chi'n eu defnyddio. Sicrhewch eich bod yn cynnwys rhestr gyfeirio ar ddiwedd eich ysgrifennu, gan ddilyn confensiynau cyfeirio Harvard.

2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth

Ar lefel 4, dylech allu arddangos gwybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio. Mae *gwybodaeth* yn ymwneud â'r ffeithiau, y wybodaeth a'r sgiliau rydych wedi'u caffael trwy eich dysgu. Rydych yn arddangos eich *dealltwriaeth* trwy ddehongli ystyr y ffeithiau a'r wybodaeth. Golyga hyn fod arnoch angen dethol a chynnwys yn eich gwaith y cysyniadau, y technegau, y modelau, a'r theorïau ac ati sy'n briodol i'r dasg/tasgau a osodwyd. Dylech allu esbonio'r theorïau, y cysyniadau, ac ati i ddangos eich dealltwriaeth. Hefyd bydd eich marc/gradd yn amodol ar y *graddau* rydych yn arddangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Bydd eich ymateb yn dangos eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o arsylwi fel sgil ymchwil, gan gyfeirio'n benodol at ddefnyddio graddfa Leuven. Dylech hefyd ddangos bod ymwybyddiaeth o ystyriaethau moesegol yn sail i'ch holl benderfyniadau am ymchwil.

3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol

Dylech allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol, er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â theorïau a chysyniadau sylfaenol eich pwnc/pynciau astudio. Dylech allu gwerthuso addasrwydd gwahanol ddulliau o ddatrys problemau sy'n gysylltiedig â'ch maes/meysydd astudio a/neu waith. Rhaid i'ch gwaith gynnwys tystiolaeth o feddwl rhesymegol, dadansoddol. Er enghraifft, archwilio a thorri gwybodaeth i lawr yn elfennau, gwneud casgliadau, casglu, cymharu a chyferbynnu gwybodaeth. Ystyr hyn yw nid disgrifio 'beth' yn unig! Ond hefyd cyfiawnhau: Pam? Sut? Pryd? Pwy? Ble? Ar ba gost? Dylech roi cyfiawnhad dros eich dadleuon a'ch barn gan ddefnyddio tystiolaeth eich bod wedi myfyrio ar syniadau pobl eraill o fewn y maes pwnc a'ch bod yn gallu llunio barn a dadleuon cadarn gan ddefnyddio data a chysyniadau. Lle bo'n berthnasol, gellir cynnig atebion ac argymhellion amgen.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Dylai eich trafodaeth werthuso'n feirniadol yr hyn sy'n gwneud amgylchedd dysgu effeithiol o fewn lleoliad y Cyfnod Sylfaen. Sicrhewch eich bod yn cefnogi'ch barnau gyda llenyddiaeth a gwerthfawrogiad clir o foeseg yn eich ymchwil.

4. Sgiliau Ymarferol

Ar lefel 4, dylech allu cymhwyso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol er mwyn eu gwerthuso a'u dehongli yng nghyd-destun eich maes astudio. Dylech allu dangos sut y mae'r cysyniadau a'r syniadau sy'n gysylltiedig â'r pwnc yn berthnasol i sefyllfaoedd yn y byd go iawn a/neu mewn cyd-destun penodol. Sut maent yn gweithio'n ymarferol? Byddwch yn defnyddio modelau, dulliau, technegau a/neu theorïau, yn y cyd-destun hwnnw, i asesu sefyllfaoedd presennol, efallai er mwyn llunio cynlluniau neu atebion i ddatrys problemau, neu i greu arteffactau. Mae hyn yn debygol o gynnwys, er enghraifft, defnyddio arteffactau, enghreifftiau ac achosion o'r byd go iawn, cymhwyso model o fewn sefydliad a/neu feincnodi un theori neu sefydliad yn erbyn rhai eraill yn seiliedig ar feini prawf penodedig.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Ystyriwch yn feirniadol ddefnyddio graddfa Leuven fel offeryn ymchwil ar eich ymarfer eich hun a datblygiad dysgwyr. Rhowch enghreifftiau o ymddygiadau a arsylwyd a sut y gall defnyddio'r offeryn ymchwil hwn wella eich datblygiad proffesiynol.

5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol

Rhaid i'ch gwaith roi tystiolaeth o'r rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer peth cyfrifoldeb personol. Mae hyn yn cynnwys dangos: eich bod yn gallu cyfleu canlyniadau'ch astudiaeth/gwaith yn gywir ac yn ddibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; eich bod yn gallu cychwyn a chwblhau tasgau a gweithdrefnau, boed hynny'n unigol a/neu'n gydweithredol; rhuglder mynegiant; eglurder ac effeithiolrwydd o ran cyflwyniad a threfn. Dylai'r gwaith fod yn gydlynol ac wedi'i strwythuro'n dda o ran ei gyflwyniad a'i drefn.

Canllawiau penodol i'r asesiad hwn:

Mae cyfathrebu effeithiol, defnyddio iaith academaidd broffesiynol, geirfa briodol a defnyddio atalnodi yn gywir yn agweddau a fydd yn ddisgwyliad yn yr ymateb. Rhaid i rôl ymchwil foesegol wrth gefnogi myfyrio beirniadol a dysgu proffesiynol fod yn amlwg.

FFURFLEN ADBORTH MYFYRWYR

Noda'r adran hon y *graddau* y mae'r meini prawf asesu yn cael eu harddangos gennych chi, sydd yn ei dro'n pennu'ch marc. Dangosir y marciau sydd ar gael ar gyfer pob categori sgiliau. Bydd darlithwyr yn defnyddio'r lle a ddarperir i roi sylwadau ar gyflawniad y dasg/tasgau, gan gynnwys y meysydd hynny rydych wedi gwneud yn dda ynddynt a'r meysydd a fyddai'n elwa o gael eu datblygu/gwella.

Meini Prawf Asesu Generig	**Marciau sydd ar gael**	**Marciau a ddyfarn wyd**
1. Sgiliau Ymgysylltu â Llenyddiaeth		
2. Sgiliau Gwybodaeth a Dealltwriaeth		
3. Sgiliau Gwybyddol a Deallusol		
4. Sgiliau Cymhwyso Ymarferol		
5. Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Bywyd ac Arfer Proffesiynol		

Marc Asesiad (Mae marciau asesiadau'n amodol ar gadarnhad y Bwrdd Arholi. Diben y sylwadau a'r marciau hyn yw rhoi adborth ar waith modwl a rhoi arweiniad yn unig, nes y cânt eu cadarnhau.)	**Cosbau Cyflwyno'n Hwyr (ticiwch os yw'n berthnasol)**		**%**
	Hyd at wythnos yn hwyr (uchafswm o 40%)		
	Dros wythnos yn hwyr (0%)		

MEINI PRAWF ASESU GENERIG

Lefel 4
Yn unol â'r *Framework for Higher Education Qualifications*, ar ddiwedd Lefel 4 disgwylir y bydd myfyrwyr wedi arddangos gwybodaeth am gysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc, ynghyd â gallu i werthuso a dehongli'r rhain yng nghyd-destun y maes astudio hwnnw. Dylent allu cyflwyno, gwerthuso a dehongli data ansoddol a meintiol er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn yn unol â damcaniaethau a chysyniadau sylfaenol eu pwnc/pynciau astudio. Byddant wedi dysgu sut i werthuso dulliau gwahanol o ddatrys problemau, a byddant yn gallu cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth/gwaith mewn modd cywir a dibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol. Byddant yn gallu ymgymryd â hyfforddiant pellach a datblygu sgiliau newydd o fewn amgylchedd strwythuredig a rheoledig a bydd ganddynt y rhinweddau a'r sgiliau trosglwyddadwy angenrheidiol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol.

Lefel 4	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
Ymgysylltu â llenyddiaeth (yn cynnwys darllen, cyfeirnodi, arferion academaidd a gonestrwydd academaidd)	Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o ddarllen a/neu mae dibyniaeth ar ffynonellau amhriodol. Safbwyntiau a chanfyddiadau ar y cyfan heb gefnogaeth ac yn anawdurdodol. Defnyddir arferion cyfeirnodi mewn modd anghydlynol neu ar y cyfan maent yn absennol.	Ymgysylltu gwael â darllen hanfodol. Dim tystiolaeth o ddarllen ehangach. Yn dibynnu ar ffynonellau amhriodol, a/neu yn defnyddio ffynonellau'n ddiofal. Yn ddibynnol iawn ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Defnydd anghyson a gwan o gyfeirnodi.	Ymgysylltu ag ystod gyfyngedig o ffynonellau perthnasol a chredadwy ar y cyfan ond â rhywfaint o ddibyniaeth ar wybodaeth a gafwyd drwy gyswllt â'r dosbarth. Peth esgeulustod a mân wallau. Arferion cyfeirnodi'n amlwg ond heb eu cymhwyso'n gywir nac yn gyson bob tro.	Ymgysylltu ag ystod briodol o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Rhywfaint o orddibyniaeth ar destunau'n hytrach na ffynonellau eraill. Gall y cyfeirnodi ddangos mân anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod eang o lenyddiaeth, yn cynnwys ffynonellau a gyrchwyd yn annibynnol. Detholiad o ffynonellau perthnasol a chredadwy. Cyfeirnodi graenus ar y cyfan, â fawr ddim/dim anghywirdebau neu anghysonderau.	Ymgysylltu ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Cymhwyso cyfeirnodi'n gyson gywir.	Ymgysylltu eithriadol ag ystod helaeth o lenyddiaeth berthnasol a chredadwy. Sgiliau cyfeirnodi lefel uchel wedi'u cymhwyso'n gyson.
Gwybodaeth a dealltwriaeth (Gwybodaeth am gysyniadau ac egwyddorion	Bylchau mawr yn y wybodaeth a'r ddealltwriaeth o gysyniadau ac egwyddorion	Bylchau yn y wybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol	Gwybodaeth a dealltwriaeth gyfyngedig o'r cysyniadau a'r egwyddorion	Mae'r wybodaeth am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol	Gwybodaeth gymwys am y cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol	Gwybodaeth a dealltwriaeth ragorol o gysyniadau ac egwyddorion	Gwybodaeth a dealltwriaeth eithriadol a manwl o'r cysyniadau a'r

Lefel 4	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
gwaelodol sylfaenol pwnc.)	gwaelodol sylfaenol y deunydd pwnc. Yn cynnwys deunydd amherthnasol. Anghywirdebau sylweddol.	sylfaenol, gyda dealltwriaeth ddiffygiol neu arwynebol. Rhai anghywirdebau sylweddol a/neu ddeunydd amherthnasol.	gwaelodol sylfaenol yn y maes pwnc. Gall rhai elfennau fod ar goll.	sylfaenol yn gywir gyda dealltwriaeth dda o'r maes astudio ond mae diffyg manylder a/neu ehangder.	sylfaenol. Arddengys ddealltwriaeth dda iawn.	gwaelodol sylfaenol y pwnc.	egwyddorion gwaelodol sylfaenol
Sgiliau gwybyddol a deallusol (Gwerthuso cysyniadau ac egwyddorion gwaelodol sylfaenol pwnc a dehongli data ansoddol a meintiol er mwyn datblygu llinynnau dadl a ffurfio barn gadarn.)	Gwaith hollol neu bron yn hollol ddisgrifiadol. Fawr ddim neu ddim gwerthuso o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Wedi methu datblygu dadleuon, gan arwain at farn afresymegol neu annilys. Fawr ddim neu ddim defnydd o dystiolaeth i gefnogi barn.	Gwaith disgrifiadol ar y cyfan, gyda gwerthuso arwynebol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Dehongli data'n wan, datblygu dadleuon a barn yn ddiffygiol. Derbynnir gwybodaeth yn anfeirniadol, defnyddia ddatganiadau cyffredinol heb fawr o dystiolaeth a barn heb sail. Syniadau weithiau'n afresymegol ac yn gwrthddweud ei gilydd.	Ymgais cyfyngedig at werthuso'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol, gan dueddu tuag at ddisgrifio. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol ond â rhai gwallau. Peth tystiolaeth i gefnogi dadleuon cynyddol a barn ond gall y rhain fod heb eu datblygu'n ddigonol neu ag ychydig o anghysondeb / camddehongli.	Gwerthuso da o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol, gyda mân wallau. Gallu cynyddol i ddefnyddio tystiolaeth i gefnogi'r ddadl. Dadleuon dilys a barn resymegol ar y cyfan.	Gwerthuso graenus o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol yn gywir. Gallu i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth i lunio barn sy'n briodol a dilys ar y cyfan.	Gwerthuso rhagorol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol. Gall ddehongli data ansoddol a meintiol yn gywir ac â pheth mewnwelediad. Gallu rhagorol i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth a llunio barn sy'n briodol a dilys.	Gwerthuso eithriadol o'r cysyniadau a'r egwyddorion gwaelodol sylfaenol yn seiliedig ar dystiolaeth. Dehongli data ansoddol a meintiol mewn modd rhagorol. Gallu eithriadol i ddyfeisio dadleuon gan ddefnyddio tystiolaeth a llunio barn sy'n hollol briodol a dilys.
Sgiliau ymarferol (Dulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn	Defnydd cyfyngedig, neu ddim defnydd o ddulliau sylfaenol a	Cymhwyso dulliau sylfaenol a addysgwyd, deunyddiau, offer a/neu	Ymwybyddiaeth ddigonol a chymhwyso dulliau sylfaenol, deunyddiau,	Cymhwyso dulliau sylfaenol, deunyddiau, offer a/neu dechnegau	Cymhwyso ystod o ddulliau sylfaenol, deunyddiau, offer a/neu	Cymhwyso ystod o ddulliau sylfaenol a addysgwyd, deunyddiau,	Lefelau eithriadol o sgiliau cymhwyso a defnyddio mewn

Lefel 4	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
cyd-destunau penodol).	addysgwyd, deunyddiau, offer a/neu dechnegau. Fawr ddim neu ddim gwerthfawrogiad o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth wan iawn o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol.	dechnegau mewn modd elfennol ond heb ystyriaeth na chymhwysedd. Gwerthfawrogiad diffygiol o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth wan o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol.	offer a/neu dechnegau, mewn modd sy'n briodol ar y cyfan. Gwerthfawrogiad sylfaenol o gyd-destun y cymhwyso. Gall ddynodi problemau mewn cyd-destunau penodol a chynnig dulliau sylfaenol neu atebion eraill er gall fod gwallau.	mewn modd da a phriodol. Gwerthfawrogiad eglur o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth dda o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion sy'n briodol ar y cyfan.	dechnegau mewn modd da iawn. Ystyriaeth dda iawn o gyd-destun y cymhwyso. Tystiolaeth dda iawn o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion priodol.	offer a/neu dechnegau mewn modd uwch. Mae cyd-destun y cymhwyso yn ystyriol ac yn graff. Tystiolaeth ragorol o ddulliau gwahanol o ddatrys problemau mewn cyd-destunau penodol a chynigia atebion priodol.	cyd-destunau ymarferol penodol. Dynodi problemau mewn cyd-destunau penodol mewn modd rhagorol, a llunio atebion / dulliau gwahanol sy'n feddylgar ac yn hollol briodol.
Sgiliau trosglwyddadwy ar gyfer bywyd ac arfer proffesiynol (Cyfleu canlyniadau eu hastudiaeth / gwaith mewn modd cywir a dibynadwy, gyda dadleuon strwythuredig a chydlynol; y rhinweddau sydd eu hangen ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol o fewn amgylchedd	Mae'r gwaith wedi'i strwythuro'n wael, yn ddi-drefn, yn anghywir a/neu wedi'i fynegi'n ddryslyd. Defnydd gwan iawn o iaith a/neu arddull amhriodol iawn. Wedi methu gweithio'n effeithiol yn unigol neu'n rhan o grŵp. Fawr ddim neu ddim tystiolaeth o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth	Mae'r gwaith wedi'i gyflwyno'n wael mewn modd di-gyswllt. Mae wedi'i strwythuro'n llac, ac ar brydiau'n anghydlynol, a gwybodaeth a syniadau wedi'u mynegi'n wael yn aml. Defnydd gwan o iaith a/neu arddull amhriodol. Ymagwedd ddiffygiol at waith unigol neu waith grŵp, gan fodloni rhwymedigaetha	Cyflwyniad a strwythur yn drefnus ar y cyfan, lle mynegir syniadau / cysyniadau perthnasol mewn modd rhesymol. Gall fod diffyg cydlyniad a/neu gywirdeb mewn mannau yn y gwaith. Gall weithio fel rhan o grŵp, gan fodloni'r rhan fwyaf o'r rhwymedigaetha u i bobl eraill ond	Mae'r gwaith yn gydlynol, trefnus a chywir ar y cyfan, mewn strwythur addas ac ar y cyfan mae wedi'i fynegi'n eglur. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eglur at weithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer	Mae'r gwaith yn gywir, cydlynol, rhugl, wedi'i strwythuro'n dda ac yn drefnus. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau da iawn at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau da iawn ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda	Mae'r gwaith yn gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n broffesiynol. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau rhagorol at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau rhagorol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol gydag	Mae'r gwaith yn gywir, yn eithriadol o gydlynol, yn rhugl iawn ac wedi'i gyflwyno'n dda. Gall weithio'n effeithiol yn annibynnol a/neu fel rhan o dîm, gyda chyfraniadau eithriadol at weithgareddau grŵp. Arddengys sgiliau eithriadol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o

Lefel 4	METHU	METHU FFINIOL	BODDHAOL (3ydd / Llwyddo)	DA (2.2 / Llwyddo)	DA IAWN (2.1 / Teilyngdod)	RHAGOROL (1af / Rhagoriaeth)	EITHRIADOL (1af / Rhagoriaeth)
Categori	**0-29%**	**30-39%**	**40-49%**	**50-59%**	**60-69%**	**70-84%**	**85-100%**
strwythuredig a rheoledig.)	sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol.	u rhannol i eraill yn unig. Tystiolaeth gyfyngedig o'r sgiliau ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol.	efallai gyda chyfranogiad cyfyngedig mewn gweithgareddau grŵp. Arddengys y sgiliau sylfaenol ar gyfer cyflogaeth sy'n gofyn am arfer rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda rhai meysydd o fân wendid.	rhywfaint o gyfrifoldeb personol, gyda rhai meysydd o gryfder a rhai o fân wendid.	mân gwendid achlysurol yn unig.	awydd i ddatblygu ymhellach.	gyfrifoldeb personol gydag awydd i ddatblygu ymhellach.

MAE'R DDOGFEN HON AR GAEL HEFYD YN SAESNEG